Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

17.11.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth i chi ynglyn a rhai digwyddiadau a dyddiadau dros yr wythnosau nesaf.

Perfformiadau dathlu'r Nadolig – Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa yr ydym yn parhau i fod ynddi ynddi o ran Covid-19, ni fyddwn yn cynnal cyngherddau Nadolig arferol yn neuadd yr ysgol i rieni/gofalwyr unwaith eto y flwyddyn hon. Er hyn, bydd dathliadau'r Nadolig yn parhau a bydd y plant yn cymryd rhan mewn cyflwyniadau dathlu amrywiol. Bydd y perfformiadau yn cael ei ffilmio a byddant ar gael i chi gael ei gwylio fel rhan o ddathliadau'r Nadolig. Bydd manylion pellach yn dilyn o ran y trefniadau i fedru archebu copi o'r perfformiadau.

Plant mewn angen – Cofiwch y byddwn yn cefnogi ymgyrch Plant mewn Angen ar ddydd Gwener Tachwedd y 19eg. Diwrnod Gwallt Gwirion fydd ein thema. Gofynnir am gyfraniad o £1 tuag at yr ymgyrch. Bydd Cyngor Plant yr Ysgol hefyd yn trefnu stondin bach ar gyfer y dydd. Gweler y linc ar gyfer gwneud taliad. Diolch

https://app.parentpay.com/ParentPayShop/Foc/Default.aspx?shopid=4712

2.12.21-3.12.21 – Blwyddyn 4 yn ymweld a Gwersyll yr Urdd Glan Llyn

9.12.21 - Cinio Nadolig yr ysgol

10.12.21 - **Achub y Plant – Diwrnod Siwmper Nadolig** –Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1. Diolch

16.12.21 – Cyfnod Sylfaen yn ymweld a'r Stiwt i wylio ffilm

21.12.21 – Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld a'r Stiwt i wylio ffilm

22.12.21 – Diwrnod olaf y tymor

Diolch,

Rhodri Jones
Pennaeth